

Helpu llygod pengrwn y dŵr ar eich tir



people's
trust for
endangered
species

Mae'r canllaw hwn wedi ei gymeradwyo gan Grŵp Llywio Llygod Pengerwn y Dŵr y DU. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, Scottish Natural Heritage, People's Trust for Endangered Species (PTES), y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) a'r Ymddiriedolaethau Natur.



Llygoden bengron y dŵr

Mae llygoden bengron y dŵr, a fu unwaith i'w gweld yn gyffredin ar hyd ein dyfrffyrdd, wedi diflannu'n gyflym o rannau helaeth o'r dirwedd. Dyma un o'r dirywiadau mwyaf difrifol o unrhyw famal Prydeinig dros y ganrif ddiwethaf. Mae sawl ffactor wedi achosi'r cwmp syfrdanol mewn niferoedd.

Arweiniodd newidiadau yn y modd o ddefnyddio a rheoli tir at golli a darnio cynefinoedd addas ar hyd cyfran fawr o'n dyfrffyrdd. Yn fwy diweddar, cafodd minc America, rhywogaeth ysglyfaethus estron, effaith ofnadwy ar niferoedd llygod pengrwn y dŵr. Daethpwyd â minc i'r DU ar gyfer ffermydd ffwr yn y 1920au, ond llwyddodd rhai i ddianc neu gael eu rhyddhau ac erbyn y 1950au, roeddent yn bridio yn y gwyllt.

Fodd bynnag, gall gwelliannau syml i arferion rheoli tir wella addasrwydd cynefinoedd ar gyfer llygod pengrwn y dŵr, gan helpu i gysylltu cytrefi ar draws y dirwedd. Mae'r newidiadau hyn yn rhai sy'n hawdd i ffermwyr a thirfeddianwyr eu gwneud a gallai'r camau a argymhellir yn y canllaw hwn gryfhau ceisiadau am grantiau.

Ynglŷn â llygoden bengron y dŵr

Mae llygoden bengron y dŵr, a anfarwolwyd fel Ratty yn *The Wind in the Willows*, yn rhan allweddol o'n treftadaeth naturiol. Mae'n byw ym Mhrydain ers yr Oes Iâ ddiwethaf ac mae ganddi rôl ecolegol bwysig ar hyd ein dyfrffyrdd. Mae'n arwydd o amgylchedd iach, yn ffynhonnell fwyd i amrywiaeth o rywogaethau ysglyfaethus brodorol, a gall hyd yn oed wella amrywiaeth planhigion ar lannau afonydd trwy greu ei rhwydwaith o dyllau. Er y gellir drysu rhyngddi a llygoden Ffrengig, mae hi'n wahanol iawn. Hon yw llygoden bengron fwyaf Prydain, tua'r un maint â mochyn cwta ac mae ganddi gorff crwn a thew, trwyn pŵl a chlustiau bach wedi'u gorchuddio â ffwr trwchus. Brown tywyll yw ei lliw fel arfer ond mae rhai du yn bodoli, yn enwedig yn yr Alban.

Pam mae'n dirywio

Mae llygoden bengron y dŵr yn ffynnu mewn sawl gwahanol fath o gynefinoedd gwlyptir ond gall rhai arferion olygu nad yw dyfrffyrdd yn addas ar ei chyfer. Mae dwysáu amaethyddol, draenio gwlyptiroedd, rheoli glannau afonydd a sianeli mewn modd diystyriol a datblygu adeiladau i gyd wedi arwain at golli cynefinoedd dros y ganrif ddiwethaf. Mae pori trwm gan dda byw nid yn unig yn arwain at golli llystyfiant ar lannau afonydd, ond hefyd mae sarnu a sathru glannau afonydd yn eu gwneud yn anaddas i lygod pengrwn y dŵr.

Mae llygod pengrwn y dŵr yn arbennig o agored i gael eu bwyta gan finc America gan nad yw eu modd arferol o amddiffyn eu hunain, sef plymio o dan y dŵr a chodi sgrin o fwd a gwaddodion, neu ddianc i'w twll, yn effeithiol! Gall minc benywaidd ffitio i mewn i dwll llygoden bengron y dŵr a difa cytrefi cyfain ar hyd dyfrffyrdd.

Mae mwy o obaith i boblogaethau o lygod pengrwn y dŵr oroesi os caiff llystyfiant ar lannau afonydd ei adfer i gyflwr iach ac os caiff cysylltedd rhwng cytrefi ei wella er mwyn lledaenu a hybu poblogaethau. Y ffordd o gyflawni hyn yw trwy adfer a gwella cynefinoedd.

Gwarchodaeth gyfreithiol

Cymru a Lloegr

Mae llygoden bengron y dŵr wedi ei gwarchod yn llawn o dan Adran 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd). Mae Atodlen 5 o'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i fynd ati'n fwriadol i ddifrodi neu rwystro mynediad i dyllau llygod pengrwn y dŵr.

Yr Alban

Mae llygoden bengron y dŵr wedi'i rhestru ar Atodlen 5 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, er dim ond mewn perthynas ag Adran 9(4) ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn drosedd i fynd ati'n fwriadol neu'n fyrbwyll i rwystro neu ddifrodi mynediad i unrhyw strwythur neu le a ddefnyddir gan lygod pengrwn y dŵr ar gyfer lloches neu warchodaeth. Mae hefyd yn drosedd i amharu ar lygoden bengron y dŵr pan fydd yn defnyddio'r cyfryw fan cysgodi neu loches.

Rheoli dyfrffyrdd a gwlyptiroedd mewn modd buddiol

Gall newidiadau syml mewn arferion rheoli wella cynefinoedd ar gyfer llygod pengrwn y dŵr. Os ydyn nhw am ffynnu, mae angen dyfrffyrdd gydag ymylon eang o lystyfiant dwys (ar lannau afonydd ac yn y dŵr), glannau meddal i dyllu ynddynt, dŵr gweddol ddwfn sy'n llifo'n araf a glannau heb eu cysgodi.

Mae llawer o ffermwyr a thirfeddianwyr eisoes wedi mabwysiadu ymagwedd gynaliadwy at reolaeth, ond os yw llygoden bengron y dŵr am ffynnu eto yn ein cefn gwlad, bydd angen ymdrech barhaus gan bob un ohonom.

Mae'r canllaw hwn yn tynnu sylw at gamau rheoli sy'n gyfeillgar i lygod pengrwn y dŵr, gan gynnwys:

- 1. Rheoli da byw ger cyrsiau dŵr**
- 2. Strimynnau gwarchod**
- 3. Rheoli cyrsiau dŵr a ffosydd yn ystyriol**
- 4. Adfer, ail-greu a rheoli cynefinoedd gwlyptir**



1. Rheoli da byw ger cyrsiau dŵr

Cam gweithredu Budd i lygod pengrwn y dŵr

Lleihau pori ar hyd dyfrffyrdd.

Mae glannau sydd wedi'u sathru neu eu pori'n drwm yn anaddas ar gyfer llygod pengrwn y dŵr, oherwydd gall da byw niweidio llystyfiant, chwalu tyllau a gwneud y clawdd yn anaddas i'w gloddio trwy gywasgu'r ddaear. Mae angen llystyfiant trwchus ar lygod pengrwn y dŵr i ddarparu bwyd a chysgod rhag ysglyfaethwyr a phridd mae'n hawdd cloddio ynddo i greu tyllau. Mae atal pori hyd at ymyl y dyfroedd yn caniatáu i llystyfiant glan dŵr adfer ac yn atal y glannau rhag cael eu sathru a'u sarnu.

Ffensio parhaol 2m neu fwy o ymyl y dŵr. Rheoli coed neu brysgwydd os byddan nhw'n dechrau dominyddu'r stribed.

Mae ffensys yn creu strimyn gwarchod ar hyd y ddyfrffordd, gan atal da byw rhag difrodi cynefinoedd llygod pengrwn y dŵr trwy bori a sathru. Yn ddelfrydol, dylid defnyddio ffensio gwifren gan ei fod yn llai tebygol o faglu gormod o falurion ar adegau o lif uchel. Gosodwch glwyd yn y ffens er mwyn darparu mynediad i'r safle at ddibenion ei reoli. Gwnewch waith rheoli mewn camau bach, gan dorri ymylon y cae neu lan yr afon yn sgolpiog.

Mae rhywfaint o goed yn iawn ond mae gormod o goed ar hyd dyfrffordd yn cysgodi llystyfiant y ddaear y mae llygod pengrwn y dŵr yn dibynnu arno am fwyd a lloches rhag ysglyfaethwyr. Sicrhewch y caiff coed a phrysgwydd eu rheoli fel na fyddant yn dominyddu'r ddyfrffordd.

Ffensio dros dro 2m neu fwy o ymyl y dŵr. Allgáu da byw yn dymhorol.

Fel gyda'r cam blaenorol, mae ffensys yn creu strimyn gwarchod sy'n atal da byw rhag difrodi cynefinoedd llygod pengrwn y dŵr. Mae ffensio ardaloedd dros dro yn creu coridorau sy'n caniatáu i lygod pengrwn y dŵr gytrefu ardaloedd newydd, ac yn caniatáu pori ar ôl tynnu'r ffensys.

Mae gorbori ar lannau afonydd yn effeithio ar lygod pengrwn y dŵr yn waeth yn y gaeaf pan fydd llystyfiant yn brin. Bydd allgáu da byw yn dymhorol o ardaloedd craidd yn fuddiol i lygod pengrwn y dŵr dros y gaeaf.

Cam gweithredu Budd i lygod pengrwn y dŵr

Creu cilfach yfed ar gyfer da byw. Defnyddio pwmp porfa neu gafn dŵr oddi ar y nant neu'r afon.

Mae'n caniatáu i dda byw gael mynediad i ddŵr ond yn lleihau pwysau pori a sathru ar hyd gweddill y lan, sydd o fudd i lygod pengrwn y dŵr.

Mae pwmp porfa oddi ar yr afon yn galluogi da byw i gael mynediad i ddŵr o'r afon heb fod angen mynediad uniongyrchol ati.

Mewn ardaloedd ucheldirol gyda chynefin llygod pengrwn y dŵr o ansawdd da, gostwng lefelau pori trwy leihau stoc lle bo angen.

Gallai ardaloedd o lystyfiant dwys ar bwys nentydd bas, araf mewn ardaloedd ucheldirol fod yn agored i or-bori a sarnu gan geirw a defaid. Bydd lleihau'r lefelau pori'n cynnal cynefinoedd o ansawdd da i lygod pengrwn y dŵr, gan ddarparu bwyd a lloches rhag ysglyfaethwyr, yn ogystal â chysylltiadau rhwng darnau addas o gynefin a phoblogaethau eraill.

Mae'r camau hyn hefyd o fudd i



amffibiaid



mamaliaid bach



infertebratau



ystumod





2. Strimynnau gwarchod *

Cam gweithredu

Creu strimynnau gwarchod glaswelltog ar hyd cyrsiau dŵr, ffosydd a phyllau mewn caeau. 4-6m mewn glaswelltir dwys a thir wedi'i drin.

Budd i lygod pengrwn y dŵr

Mae hyn yn darparu cynefinoedd chwilota pwysig i lygod pengrwn y dŵr drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â lloches rhag ysglyfaethwyr. Mae strimynnau gwarchod hefyd yn caniatáu i lygod pengrwn y dŵr ledaenu ac yn darparu cysylltiadau rhwng darnau addas o gynefin a phoblogaethau eraill o lygod pengrwn y dŵr. Mae hyn yn cynyddu sefydlogrwydd y boblogaeth yn y dirwedd ehangach.

Allgáu da byw o strimynnau gwarchod mewn caeau a borir.

Mae'n rhoi cyfle i llystyfiant glan dŵr adfer a ffynnu, yn ogystal ag atal y glannau rhag cael eu sarnu a'u sathru, a all ddifrodi tyllau llygod pengrwn a gwneud y lan yn anaddas i'w chloddio.

Osgoi chwistrellu â chemegau.

Ar dir â, osgowch chwistrellu cemegau ar y strimyn gwarchod gan y bydd hyn yn difrodi'r llystyfiant.

Torri i reoli lledaeniad tyfiant coediog bob tair i bum mlynedd. Dylid torri llystyfiant ddiwedd yr haf (o ddiwedd mis Medi).

Mae gwaredu coed a phrysgwydd dwys sy'n gorgysgodi yn annog gorchudd gwelltog da a thrwchus ar lannau afonydd i lygod pengrwn y dŵr. Fodd bynnag, gellir gadael clytiau bach o brysgwydd gan fod planhigion megis mieri yn darparu bwyd i lygod pengrwn y dŵr ac yn fuddiol hefyd i rywogaethau eraill megis adar tir ffermio.

Wrth losgi grub*, dylid sicrhau y caiff cynefinoedd afonol ar bwys dyfrffyrdd bach yn yr ucheldir eu gwarchod rhag llosgi.

Mae angen llystyfiant dwys ar lygod pengrwn y dŵr er mwyn darparu bwyd a lloches rhag ysglyfaethwyr. Mae diogelu strimyn gwarchod ar hyd dyfrffyrdd ucheldirol hefyd yn caniatáu i lygod pengrwn y dŵr ledaenu ac yn darparu cysylltiadau rhwng darnau addas o gynefin a phoblogaethau eraill o lygod pengrwn y dŵr. Mae hyn yn cynyddu sefydlogrwydd y boblogaeth yn y dirwedd ehangach.

Mae'r camau hyn hefyd o fudd i



amffibiaid



mamaliaid bach



ystumod



adar



pysgod



infertebratau

* Cyfeiriwch at yr asiantaeth statudol berthnasol ar gyfer canllawiau/cod ymarfer ar losgi grub.

3. Rheoli cyrsiau dŵr a ffosydd yn ystyriol*

Cam gweithredu

Torri llystyfiant bob dwy flynedd (neu hwy) gan adael un lan heb ei thorri bob blwyddyn.

Cynnal 15cm o llystyfiant wrth dorri a gadael bylchau rhwng 10 a 20 metr o hyd fel ardaloedd o loches heb eu torri. Gwaredu llystyfiant ddiwedd yr haf.

Budd i lygod pengrwn y dŵr

Mae torri dim ond un lan y flwyddyn yn golygu y bydd lloches bob amser i lygod pengrwn y dŵr ddianc iddi.

Bydd torri'r llystyfiant yn rhy fyr yn arafu aildyfiant, sy'n golygu y bydd llygod pengrwn y dŵr yn colli lloches am gyfnod hwy.

Mae torri ar ddiwedd yr haf yn golygu bod llai o amharu ar lygod pengrwn y dŵr yn ystod y tymor bridio.

Gosod carthion mor bell ag sy'n bosibl o ymyl y dŵr.

Yn osgoi rhwystro mynedfeydd i dyllau llygod pengrwn y dŵr a gorchuddio llystyfiant ar lannau afonydd.

Carthu ffosydd bob pum mlynedd.

Cynnal gwaith rhwng canol Medi a diwedd Ionawr.

Cyfyngu peiriannau i ddim ond un ochr o'r ddyfrffordd ac i ffwrdd o ymyl y lan.

Osgoi dadsiltio mwy na hanner ffos yn ystod unrhyw aeaf.

Pan fydd ffosydd wedi llenwi neu wedi gordyfu, mae angen eu rheoli er mwyn eu gwneud yn addas i lygod pengrwn y dŵr a hefyd er mwyn rheoli llif y dŵr. Ceisiwch osgoi crafu ymylon y glannau gan y gall hyn ddifa tyllau. Mae cadw peirianwaith i un ochr i'r ffos yn sicrhau y caiff un lan ei chynnal ar gyfer llygod pengrwn y dŵr.

Tocio coed ar lannau afonydd yn ddetholus a rheoli gwrychoedd ar bwys cyrsiau dŵr. Gwneud y gwaith yn ystod y gaeaf.

Yn gadael mwy o olau i mewn, yn annog llystyfiant ymylol a llystyfiant mewn sianeli ac yn lleihau cwmp dail i mewn i'r sianel. Mae hyn oll yn cynyddu addasrwydd y ddyfrffordd ar gyfer llygod pengrwn y dŵr.

Cynnal neu godi lefel y dŵr.

Mae sefydlogrwydd hirdymor lefel y dŵr yn bwysig i lygod pengrwn y dŵr, gan fod llifogydd a sychder yn eu gadael yn agored i ysglyfaethwyr.

Mae'r camau hyn hefyd o fudd i



infertebratau
dŵr croyw



ystlumod



adar



amffibiaid

*Er mwyn cynnal y gweithgareddau hyn, mae'n bosibl y bydd angen trwydded amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gwaith ar brif afon neu ganiatâd is-ddeddf gan yr awdurdod rheoli risg lleol ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin. Ewch i <https://www.gov.uk/guidance/flood-risk-activities-environmental-permits> neu cysylltwch â'ch awdurdod rheoli risg lleol i wirio a oes angen trwydded neu ganiatâd arnoch.





4. Adfer, ail-greu a rheoli cynefinoedd gwlyptir *

Cam gweithredu

Adfer neu greu pyllau, gwalau, ffosydd a merddyfroedd.

Budd i lygod y dŵr

Yn cynnig hafanau diogel i lygod pengrwn y dŵr, yn enwedig yn ystod cyfnodau o lifogydd neu sychder. Maen nhw hefyd yn cymhlethu tirweddau gwlyptir, yn darparu lloches rhag ysglyfaethwyr ac yn creu cysylltiadau rhwng cynefinoedd gan alluogi llygod pengrwn y dŵr i symud trwy'r dirwedd a mudo rhwng cytrefi.

Dylai pyllau a grëir ar gyfer llygod pengrwn y dŵr gynnwys o leiaf 50m o gynefin o ansawdd da ar y lan.

Gellir aildyfrio ffosydd sych trwy osod byndiau neu fyrddau pren.

Cam gweithredu

Cynnal lefel uchel o ddŵr mewn ardaloedd o laswelltir gwlyb.

Creu gwelyau cyrs ac ardaloedd o ffeniau.
Cynnal lefel y dŵr ar o leiaf 0.3m o ddyfnder ac, os bydd rhaid ei gostwng, gwneud hynny rhwng Tachwedd a Mawrth.
Creu a chynnal ynysoedd a glannau uchel o fewn y gwely cyrs.

Gwaredu waliau cynnal artiffisial diangen ar y glannau.

Mewn ardaloedd ucheldirol, dylid creu cynefinoedd lloches ymhell o nentydd sy'n gorlifo'n rheolaidd.

Rheoli cyrsiau dŵr, ffosydd ac ardaloedd o wlyptiroedd yn ystyriol

Budd i lygod pengrwn y dŵr

Yn annog ardaloedd o blanhigion gwlyptir i ddatblygu, sy'n darparu cynefin pwysig i lygod pengrwn dŵr, yn ogystal ag adar rhydio.

Ystyrir gwelyau cyrs yn gynefin blaenoriaethol i lygod pengrwn y dŵr gan eu bod yn darparu lloches rhag minc America.

Dylid cynnal lefel y dŵr er mwyn atal ysglyfaethwyr daearol rhag cael mynediad i'r gwely cyrs. Mae ynysoedd neu lannau uchel yn darparu lloches ar adegau o lifogydd.

Mae angen glannau meddal, hawdd tyllu ynddynt, ar lygod pengrwn y dŵr. Trwy waredu waliau cynnal diangen ar y glannau, bydd y glannau'n fwy addas i lygod pengrwn y dŵr a gall llystyfiant ar lannau afonydd adfer a ffynnu.

Bydd llygod pengrwn y dŵr yn agored i gael eu dal gan ysglyfaethwyr ar adegau o lifogydd. Bydd creu llochesau cynefinoedd (e.e. creu systemau pyllau lle anogir llystyfiant glan afon i gytrefu) yn darparu lloches rhag ysglyfaethwyr yn ystod y cyfnodau hyn, yn ogystal â gweithredu fel 'cerrig camu' i'w helpu i ledaenu i boblogaethau eraill.

Gweler cam 3.

Mae'r camau hyn hefyd o fudd i



adar hirgoes



amffibiaid



infertebratau



ystlumod

* Gall fod angen trwydded amgylcheddol gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwneud y gwaith hwn ar brif afon, neu ganiatâd is-ddeddf gan yr awdurdod rheoli risg lleol ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin. Ewch i <https://www.gov.uk/guidance/flood-risk-activities-environmental-permits-neu-cysylltwch-âch-awdurdod-rheoli-risg-lleol-i-wirio-a-oes-angen-trwydded-neu-ganiatâd-arnoch>.



Rheoli minc America

Mae minc America anffordorol wedi cael effaith ddinistriol ar boblogaethau llygod pengrwn y dŵr ledled y DU dros y degawdau diwethaf. Gellir rheoli minc er mwyn lleihau eu niferoedd a lleihau eu heffaith ar fywyd gwylt brodorol. Rafftau minc a ddyluniwyd gan yr Ymddiriedolaeth Anifeiliaid Hela a Bywyd Gwylt (GWCT) yw'r ffordd fwyaf effeithlon o fonitro (gan ddefnyddio plât olrhain clai) a thrapio (gan ddefnyddio trap dal yn fyw) minc.

Er mwyn bod yn effeithiol, dylid rheoli minc fel rhan o ddull o weithio cydlynol a pharhaus a gynlluniwyd yn dda, a hynny, yn ddelfrydol, mewn cydweithrediad â thirfeddianwyr eraill ar draws ardal y dirwedd/dalgylch ehangach. Dylid ystyried rhaglen o reoli minc yn ymrwymiad hirdymor a dylai adnoddau digonol fod ar gael i sicrhau y gellir ei chynnal ar ôl ei dechrau.

Deddfwriaeth

Nid oes angen trwydded i reoli minc yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn rhoi gwarchodaeth ddeddfwriaethol i anifeiliaid a gaiff eu dal mewn trap ac mae'n nodi bod gan y tirfeddianwr gyfrifoldeb dros sicrhau nad achosir unrhyw ddioddefaint diangen o ganlyniad i drapio. Rhaid gwirio rafftau â thrapiau o leiaf unwaith bob 24 awr. Gellir defnyddio system monitro o bell, megis Remoti a 'Mink Police', yn gyfreithlon, yn hytrach na gwirio'r maglau bob dydd, ar yr amod bod y defnyddiwr yn sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn ac yr ymatebir i negeseuon yn brydlon. Defnyddir y cyfryw ddyfeisiau yn ôl disgrisiwn y tirfeddianwr.

Er mwyn gosod rafftau minc ar afonydd dynodedig, mae angen caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yng Nghymru a chan Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr.

Y cyfnodau allweddol i reoli yw rhwng Chwefror ac Ebrill pan fydd benywod yn sefydlu tiriogaethau bridio, a rhwng Awst a Hydref pan fydd y rhai ifainc yn gwasgaru.

I gael gwybod a ydych yn byw mewn ardal sydd â chynllun rheoli mincod ar waith y gallwch gyfranogi ynddo, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Natur leol, <https://www.wildlifetrusts.org/find-wildlife-trust>, neu eich ymddiriedolaeth bysgodfeydd leol.

Cynlluniau amaeth-amgylchedd

Mae cynlluniau amaeth-amgylchedd yn darparu cyllid i ffermwyr a rheolwyr tir i warchod a gwella'r amgylchedd ar eu tir. Mae rhagnodiadau rheoli sy'n helpu llygod pengrwn y dŵr hefyd yn cryfhau ceisiadau.

Mae gan bob un o'r gwledydd datganoledig ei rhaglen ei hun o gynlluniau amaeth-amgylchedd. Mae'r cynlluniau hyn yn agored i bob ffermwr a rheolwr tir cymwys ac maent:

- yn addas ar gyfer llawer math o ddefnydd tir (er enghraifft, tir ffermio confensiynol ac organig, ardaloedd arfordirol ac ucheldiroedd)
- yn gystadleuol
- wedi'u sgorio yn erbyn targedau blaenoriaeth leol er mwyn sicrhau'r buddion amgylcheddol mwyaf

Ceir trosolwg o'r cynlluniau perthnasol ar gyfer pob gwlad ar ein gwefan www.ptes.org/watervoles

Am fwy o wybodaeth ac i gael gwybod sut i wneud cais, ewch i:

Cymru – www.llyw.cymru/ffermio-a-chefn-gwlad

Lloegr – www.gov.uk/environment/farming-food-grants-payments-rural-grants-payments

Yr Alban - <https://www.ruralpayments.org/publicsite/futures/topics/all-schemes/agri-environment-climate-scheme>

Mae gan yr RSPB, eich ymddiriedolaeth natur leol, FWAG a BASC gynghorwyr mewn llawer rhan o'r wlad sydd mewn sefyllfa dda i gynnig cyngor. Cewch fanylion ar eu gwefannau.





Sut i wybod a oes llygod pengrwn y dŵr ar eich tir

Yn debyg i lawer o famaliaid, nid yw bob amser yn bosib gweld llygod pengrwn y dŵr, hyd yn oed os ydynt yn bresennol. Y ffordd orau o chwilio amdany'n nhw yw cadw llygad am eu holion.

Mae'r rhain yn cynnwys eu baw (gaiff ei adael fel arfer mewn pentyrrau o'r enw geudai), gweddillion bwydo a thyllau yn y lan (neu mewn rhai cynefinoedd, nythod).

Mae geudai, gweddillion bwyd a gweld yr anifeiliaid yn y cnawd i gyd yn ffyrdd da o wybod bod llygod pengrwn y dŵr yn byw yn yr ardal. Gall tyllau barhau am nifer o flynyddoedd, fodd bynnag, felly ni ellir eu defnyddio fel tystiolaeth o ddeiliadaeth bresennol.

Cysylltwch â watervoles@ptes.org os hoffech gopi o'n canllawiau i chwilio am arwyddion o lygod pengrwn y dŵr.

I gael gwybod am lygod pengrwn y dŵr yn eich ardal leol, cysylltwch â'ch Ymddiriedolaeth Natur leol neu eich canolfan cofnodion amgylcheddol leol.

Nodyn ar lygod pengrwn y dŵr turiol

Daeth poblogaethau o lygod pengrwn y dŵr turiol (yn byw ar laswelltir) i'r amlwg yn Glasgow yn 2008. Mae'r poblogaethau anhygoel hyn wedi addasu i fyw mewn cynefinoedd glaswelltir trefol fel parciau, gerddi, ymylon ffyrdd a thir segur ac anial. Yn gyffredinol, mae llygod pengrwn y dŵr ym Mhrydain yn byw ychydig fetrau o ddŵr neu mewn cynefinoedd gwlyptir, megis ffeniau neu welyau cyrs, sy'n golygu bod poblogaeth Glasgow yn dra anghyffredin. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod rhagor o boblogaethau ledled y wlad sy'n ffafrio cynefin sychach ond sydd heb eu darganfod. Os ydych yn credu bod llygod pengrwn y dŵr yn byw ar eich tir ond ymhell o unrhyw ddyfrffordd, cysylltwch â ni ar watervoles@ptes.org

Sut mae PTES yn helpu llygod pengrwn y dŵr

Ers 1997, rydym wedi cyllido dros 45 o brosiectau llygod pengrwn y dŵr. Rydym wedi ymchwilio i'r hyn sy'n helpu llygod pengrwn y dŵr i geisio lloches rhag minc America. Rydym wedi darganfod y ffyrdd gorau o adfer cynefinoedd da. Rydym wedi cefnogi rhaglen eang yng ngogledd yr Alban sy'n gweithio gyda'r cyhoedd i reoli minc, ac yn ddiweddar, rydym wedi astudio effeithiau cynnal a chadw dyfrffyrdd ar boblogaethau lleol o lygod pengrwn y dŵr.

Rydym yn rheoli Rhaglen Fonitro Genedlaethol Llygod Pengrwn y Dŵr, a lansiwyd gennym yn 2015, ac yn crynhoi gwybodaeth o arolygon a gesglir gan ein gwirfoddolwyr diflino a channoedd o bobl eraill ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r rhaglen fonitro genedlaethol yn ein helpu i wybod ble mae'r llygod pengrwn y dŵr sy'n weddill ac mae'r wybodaeth hon yn llywio ein hymdrechion o ran cadwraeth.

Cewch wybod mwy ar www.ptes.org/watervoles

people's
trust for
endangered
species

020 7498 4533
enquiries@ptes.org
www.ptes.org
registered charity no. 274206